Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas
**Yewberry Close**
**Malpas**
**Casnewydd**
**NP20 6WJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas ar gyrion Casnewydd, ac fe'i cynhelir gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae 339 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae disgyblion wedi eu trefnu'n 14 dosbarth, dau ar gyfer pob grŵp blwyddyn o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6.

Unwyd yr ysgol fabanod a'r ysgol iau flaenorol i greu'r ysgol ym mis Medi 2017. Y pennaeth newydd yw cyn-bennaeth yr ysgol iau, a'r dirprwy bennaeth yw cyn-ddirprwy bennaeth a phennaeth dros dro yr ysgol fabanod. Arolygwyd yr ysgol fabanod a'r ysgol iau ar wahân yn 2014.

Y cyfartaledd tair blynedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 7%. Mae'r ffigur hwn yn is o lawer na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 12% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ymhell islaw cyfartaledd Cymru (21%).

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd Gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd wrth arolygu ysgol ag iddi gymeriad crefyddol. Yn hytrach, mae'n gyfreithiol ofynnol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn mwynhau eu dysgu a’r rhan fwyaf ohonynt yn gadael yr ysgol â safonau addas mewn Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw eu safonau mewn Cymraeg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ddigon da. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac ychydig ohonynt sy’n fwy abl yn gwneud cynnydd arafach nag y dylent. Mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn mynychu’r ysgol yn ddigon rheolaidd.

Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth, mae perthnasoedd cynnes a phroffesiynol a pharch ar y ddwy ochr rhwng disgyblion ac oedolion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Fodd bynnag, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel i herio disgyblion mwy abl i gyflawni cystal ag y gallent. Mae athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu disgyblion, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu’r medrau sydd eu hangen arnynt i weithio’n annibynnol neu ddatrys problemau drostynt eu hunain.

Mae’r weithdrefn uno ddiweddar wedi arwain at berthnasoedd toredig a chyfathrebu gwael rhwng arweinwyr, a rhwng arweinwyr a staff. O ganlyniad, bu cyfradd gwelliant yr ysgol yn rhy araf yn ddiweddar. Nid yw staff yn glir am eu cyfrifoldebau ac nid yw llawer ohonynt yn cael amser rheoli rheolaidd i fynd i’r afael â nhw. Er enghraifft, nid yw arweinwyr yn rheoli’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ddigon agos. Nid yw arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion nac yn monitro ac yn adolygu gwaith athrawon, na phresenoldeb disgyblion, yn ddigon tynn. Mae hyn yn golygu na all arweinwyr fod yn sicr fod pob un o’r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud, o leiaf, dros gyfnod.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Anfoddhaol ac angen gwelliant brys** |

## Argymhellion

A1 Datblygu systemau cyfathrebu a chyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol i alluogi pob un o'r staff i gydweithio â'i gilydd er mwyn gwella'r ysgol

A2 Dyfeisio systemau trylwyr i fonitro, gwerthuso ac adolygu gwaith yr ysgol

A3 Datblygu systemau olrhain i fonitro a gwerthuso cynnydd a phresenoldeb disgyblion yn drylwyr

A4 Datblygu gallu'r corff llywodraethol i gefnogi a herio'r ysgol i gyflawni ei dyletswyddau statudol

A5 Gwella arfer ystafell ddosbarth i gefnogi a herio pob un o'r disgyblion i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol

A6 Cryfhau'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion ag anghenion addysgol arbennig

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, bob tymor fel rheol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau llythrennedd a rhifedd sydd wedi eu datblygu'n dda ar gyfer eu hoedran. Gwnânt gynnydd priodol o ran datblygu'r medrau hyn ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadael â medrau sydd o leiaf ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion sy'n fwy abl ac ychydig o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent o'u mannau cychwyn unigol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. O'r dosbarthiadau derbyn ymlaen, maent yn cychwyn sgyrsiau ac yn siarad yn hyderus am eu profiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llawysgrifen yn dda. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dal eu pensiliau'n gywir ac yn ffurfio eu llythrennau'n ofalus gyda maint a bylchu cyson. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn ystod addas o *genres* syml, er enghraifft pan fyddant yn ail-ddweud storïau tylwyth teg cyfarwydd neu'n ysgrifennu adroddiadau am eu hymweliad â Chastell Rhaglan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o'r cysylltiad rhwng llythrennau a seiniau. Defnyddiant eu gwybodaeth am ffoneg yn dda, er enghraifft i wneud cynigion argyhoeddiadol i sillafu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda rhuglder a mynegiant cynyddol.

Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd yn dda, er nad yw ychydig ohonynt yn siarad yn hyderus, er enghraifft wrth gyflwyno'n ffurfiol o flaen disgyblion eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llafaredd yn effeithiol i ymarfer eu hysgrifennu cyn ysgrifennu ar bapur. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, mae disgyblion yn chwarae rôl eu storïau am Rhodopis, y dywysoges Sinderela Eifftaidd, cyn cynllunio ac ysgrifennu'r stori. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddestlus, gan ddefnyddio ysgrifen ddarllenadwy, gysylltiedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Maent yn gwneud defnydd da o atalnodi ac yn trefnu eu hysgrifennu'n dda, er enghraifft gan ddefnyddio paragraffau. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw llawer ohonynt yn ysgrifennu cystal mewn pynciau heblaw Saesneg. Mae hyn oherwydd na chânt ddigon o gyfleoedd i ysgrifennu'n rhydd ac yn estynedig, er enghraifft yn eu gwaith testun.

O Flwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda, er bod angen cymorth ar ychydig o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau ffoneg i lefel ddigon da. Gall llawer ohonynt ddatrys geiriau anghyfarwydd yn effeithiol. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau, fel y cyd-destun, i'w helpu i ganfod ystyr geiriau ac ymadroddion newydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Gallant resymu'r ystyr o destun a dod i gasgliad am wybodaeth trwy ddarllen 'rhwng y llinellau'. Fodd bynnag, nid oes digon o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac 'ymgolli mewn llyfr'.

Mae llawer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau derbyn yn datblygu eu hiaith fathemategol yn dda. Er enghraifft, maent yn cyfeirio tegan ar draws grid ac yn dechrau didoli gwrthrychau ar gyfer y 'tri mochyn bach' gan ddefnyddio eu meini prawf eu hunain. Erbyn Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gofnodi eu gwaith rhif yn gywir. Maent yn cyfrif mewn grwpiau o 10 a 5 i fyny i 100. Mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau defnyddio tegan cyfrifiadurol rhaglenadwy heb gymorth i ddatblygu eu dealltwriaeth o gyfeiriad. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau defnyddio prennau mesur i fesur hyd yn gywir, er mai megis dechrau datblygu y mae'r medr hwn.

Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau rhif a'u synnwyr o werth lle. Defnyddiant y wybodaeth hon i gwblhau cyfrifiadau a brawddegau rhif gan ddefnyddio ystod o strategaethau'n briodol. Erbyn Blynyddoedd 5 a 6, mae disgyblion yn lluosi rhifau dau ddigid a thri digid yn gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn talgrynnu eu hatebion yn hyderus i'r 10 agosaf. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwybod eu ffeithiau am amserlenni yn ddigon da i gefnogi eu medrau cyfrif yn y pen.

Ar frig cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud amcangyfrifon synhwyrol, er enghraifft wrth ystyried pa mor hir y bydd yn ei gymryd iddynt ysgrifennu'r dyddiad, y teitl a'r ffocws yn eu llyfrau ysgrifennu. Gyda chymorth, maent yn dechrau defnyddio eu medrau rhifedd i gyfrifo faint o amser y mae hyn yn ei gymryd dros flwyddyn ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio stopwats yn hyderus ac mae llawer ohonynt yn trosi'r darllen yn wahanol unedau amser. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau effeithiol i wirio eu gwaith i weld a yw eu hatebion yn rhesymol.

Gyda chymorth, gall llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau go iawn, er enghraifft i gyfrifo faint o losin y byddent yn gallu eu cael yn ystod dogni yng nghyfnod y rhyfel neu i gynyddu taldra model graddfa o waliau castell.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau TGCh addas ond mewn ystod gyfyngedig o feysydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfleu gwybodaeth yn briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio meddalwedd cyflwyno, creu posteri a chyfansoddi negeseuon e-bost, a'u hanfon. Fodd bynnag, mae eu cynnydd yn anghyson ac nid ydynt yn datblygu eu medrau'n ddigon eang. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn defnyddio taenlenni na chronfeydd data'n effeithiol yng nghyfnod allweddol 2. Yn ychwanegol, mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau sylfaenol gwan, er enghraifft wrth reoli llygoden cyfrifiadur yn y cyfnod sylfaen.

At ei gilydd, mae safonau mewn Cymraeg islaw'r rhai a geir fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau derbyn yn gwrando'n ofalus yn Gymraeg, ac yn dechrau ymateb yn briodol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder a gallant ofyn cwestiynau syml. Gall llawer o ddisgyblion ateb ag atebion syml un gair pan fydd oedolyn yn gofyn cwestiwn iddynt.

Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu gwybodaeth am batrymau Cymraeg sylfaenol yn briodol yn eu gwersi Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad am eu teulu a'u hanifeiliaid anwes gan ddefnyddio brawddegau syml. Defnyddiant amser y gorffennol i ddweud beth wnaethant yn y parc. O bryd i'w

gilydd, gall ychydig o ddisgyblion ymestyn eu hatebion gan ddefnyddio cysyllteiriau syml.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff, ac maent yn mwynhau dod i'r ysgol.  Maent yn gwybod ble i fynd os bydd ganddynt broblem ac maent yn hyderus y bydd staff yn ymateb yn sensitif i'w gofidiau a'u pryderon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod amser cinio ac egwyliau.  Maent yn deall systemau'r ysgol ar gyfer rheoli ymddygiad yn dda.  Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ystyriol a pharchus tuag at ddisgyblion eraill ac oedolion, ac mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn mwynhau helpu staff amser cinio gyda disgyblion iau.  Mewn ystafelloedd dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol.  Er enghraifft, maent yn dod i mewn i ystafelloedd dosbarth yn bwyllog ac yn drefnus, ac yn symud o gwmpas yr ystafelloedd yn ddiogel ac yn synhwyrol.  Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn ymdawelu mewn gwersi ac mae hyn, o bryd i'w gilydd ar draws yr ysgol, yn arafu cyflymdra'r dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus i ofyn i'w hathro os byddant yn ansicr ynghylch tasg.  Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn ddigon gwydn i weithio'n annibynnol.  Maent yn aros am gyfarwyddiadau, er enghraifft cyn dechrau gwaith ac wrth ddod â thasgau i'w terfyn.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio ar eu gwaith am gyfnod addas.  Fodd bynnag, nid ydynt yn dyfalbarhau â her, nac yn chwilio am atebion eraill, heblaw gofyn i oedolyn am gymorth.

Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio pam maent yn gwneud dewisiadau am eu bwyd a'u diod, ac mae llawer ohonynt yn mwynhau byrbrydau iach amser egwyl.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfle i fod yn egnïol yn ystod eu cyfnodau anstrwythuredig ac yn defnyddio'r maes chwarae eang yn dda.  Mae ychydig o ddisgyblion yn mwynhau canu a harmoneiddio i safon uchel, er enghraifft yn ystod clwb ar ôl yr ysgol wrth berfformio 'California Dreaming'.  Maent yn ymfalchïo mewn cynrychioli'r ysgol, er enghraifft mewn timau chwaraeon neu fel rhan o'r côr ysgol medrus, sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

Nid oes cyngor ysgol wedi'i nodi, ond mae staff yn dewis ychydig o ddisgyblion i gynrychioli eu cyfoedion fel rhan o'r grwpiau llais y disgybl a ffurfiwyd yn ddiweddar.  Mae ychydig o'r grwpiau hyn i'w gweld o gwmpas yr ysgol, er enghraifft yn gweithredu fel monitoriaid ar iard cyfnod allweddol 2 i helpu datrys mân achosion o anghydfod rhwng disgyblion.  Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau llais y disgybl yn newydd iawn ac megis dechrau cynrychioli disgyblion eraill y maent.

Mae disgyblion yn gwybod bod presenoldeb yn bwysig, ac maent yn gwerthfawrogi'r gwobrau blynyddol am bresenoldeb llawn, a'r gystadleuaeth wythnosol rhwng dosbarthiadau.  Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw digon o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn ddigon rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwelliant**

Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol, mae perthnasoedd cynnes a phroffesiynol rhwng y staff a'u disgyblion.  Mae llawer o athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol ar gyfer eu dosbarthiadau, ac mae'r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn mwynhau eu dysgu. Fodd bynnag, ar ormod o achlysuron ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rheoli'r gweithgareddau'n rhy dynn. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gymorth gan oedolyn ac nid ydynt yn datblygu eu gwydnwch a'u hannibyniaeth yn ddigon da.

Yn ychwanegol, mae athrawon yn darparu'r un gweithgaredd ar gyfer disgyblion o bob gallu yn rhy aml. Maent yn cynorthwyo'r disgyblion prin sy'n cael y gwaith yn anodd, ond nid yw eu disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion mwy abl ei gyflawni bob amser yn ddigon uchel. Mae hyn yn golygu nad yw'r disgyblion hyn yn cael digon o heriau yn eu gwaith i ymestyn eu dysgu, er enghraifft trwy dasgau hwy, annibynnol sy'n gofyn iddynt feddwl yn fanylach. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda, ar y cyfan. Mewn ychydig o achosion, ac yn gyffredinol lle mae cyflymdra'r addysgu a'r dysgu yn rhy araf, mae disgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ac yn aflonyddu neu'n clebran. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn delio â hyn yn briodol, ond ambell waith, mae athrawon yn caniatáu i'r mân aflonyddwch hwn darfu ar lif y dysgu yn ddiangen.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth rheolaidd a buddiol i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella'u gwaith. Mewn mathemateg, yn benodol, mae athrawon yn darparu ymarfer ychwanegol i annog disgyblion i ymarfer eu medrau neu gywiro camsyniad. Pan fydd disgyblion yn ymateb, mae hyn yn eu helpu i wella ymhellach. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw pob disgybl yn ymateb yn gydwybodol i adborth eu hathrawon.

Mae tîm o gynorthwywyr cymorth dysgu medrus yn darparu cymorth bugeiliol effeithiol a chymorth dysgu addas. Maent yn cyfrannu'n frwdfrydig at brofiadau llawer o ddisgyblion mewn gwersi. Fodd bynnag, ar adegau, mae disgyblion yn dibynnu'n ormodol ar gymorth gan oedolyn ac mae hyn yn atal datblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio eu hasesiadau i fonitro cynnydd yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau ansawdd asesiadau athrawon yn ddigon rheolaidd na thrylwyr i sicrhau eu bod yn gywir. Ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 6, mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn unol â meini prawf y Cwricwlwm Cenedlaethol yn gywir, ac maent yn safoni eu hasesiadau'n briodol gyda chydweithwyr o ysgolion cyfagos.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ystod ddigon eang o brofiadau i ddisgyblion feithrin eu medrau yn systematig ac yn gynyddol mewn digon o gyd-destunau pwrpasol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn hyderus i gymhwyso eu medrau'n annibynnol mewn cyd-destunau newydd neu wahanol.

Mae athrawon yn dechrau paratoi ar gyfer y cwricwlwm i Gymru trwy dreialu dull newydd, thematig sydd â'r nod o gynorthwyo disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus a medrus. Mae staff yn ychwanegu at y cwricwlwm yn dda trwy gynnal ystod eang o ymweliadau sy'n cysylltu'n agos â themâu cyfredol. Mae

disgyblion yn ymweld â lleoedd diddorol i gefnogi eu dysgu, fel y Ganolfan Eifftaidd yn Abertawe, ac maent yn siarad yn frwdfrydig am greu eu mymi eu hunain. Mae ymweliadau preswyl ar gyfer disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u hunanhyder.

Mae'r ysgol wedi creu amgylchedd dysgu difyr ar gyfer y cyfnod sylfaen gan ddefnyddio gofodau dan do ac yn yr awyr agored yn dda. Mae'r rhain yn cynnig ystod o gyfleoedd dysgu addas ar gyfer y disgyblion iau, gan gynnwys ardal ysgol goedwig werth chweil.

Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn gwersi dynodedig yn addas, at ei gilydd. Fodd bynnag, mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol. Ceir ychydig o weithgareddau defnyddiol i gyfoethogi gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol ar gyfer lles disgyblion, a cheir perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng y rhan fwyaf o'r staff a'r disgyblion. Mae rhieni sy'n newydd i'r ysgol yn croesawu'r cyfarfodydd rhagarweiniol sy'n eu helpu i ddeall yr ysgol. Mae'r rhain yn cynorthwyo'r disgyblion ieuengaf i ymgynefino'n gyflym.

Mae rhieni'n elwa ar y sesiynau gweithdy achlysurol sy'n eu cynorthwyo i ddeall dysgu eu plentyn. Mae athrawon yn darparu adroddiadau ysgrifenedig blynyddol defnyddiol i rieni ar gynnydd eu plentyn. Mae'r rhain yn adlewyrchu pob plentyn fel unigolyn. Mae'r ysgol yn defnyddio sianel cyfryngau cymdeithasol i rannu newyddion a ffotograffau gyda rhieni. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth ar fyr rybudd. Nid oes cylchlythyr rheolaidd ac, at ei gilydd, mae'r cyfathrebu â rhieni yn gyfyngedig.

Nid yw systemau'r ysgol i olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon trylwyr gan nad yw'r wybodaeth a gesglir bob amser yn gywir a dibynadwy. Mae'r olrhain gwan yn golygu nad yw disgyblion mwy abl yn gwneud y cynnydd y gallent. Nid yw arweinwyr yn dwyn athrawon i gyfrif yn llawn am safonau a chynnydd yn eu dosbarthiadau gan fod y wybodaeth olrhain yn rhy wan i nodi materion mewn modd amserol.

O Flwyddyn 2, mae athrawon yn dyfeisio proffiliau buddiol i gofnodi cryfderau pob un o'r disgyblion a'u meysydd i'w datblygu. Mae hyn yn cynorthwyo athrawon i adnabod eu disgyblion yn dda. Mae cynlluniau wedi'u personoli'n briodol ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y cynlluniau'n ddigon da ar draws yr ysgol. Er enghraifft, nid yw targedau bob amser yn ddigon cryno a mesuradwy, ac nid yw'r amserlen ar gyfer y camau gweithredu yn y cynlluniau bob amser yn glir. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol yn cydlynu'r cymorth ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon da. Ar hyn o bryd, mae llawer o'r disgyblion hyn yn cyflawni eu targedau unigol, ond nid oes gan arweinwyr y dystiolaeth gadarn i fod yn sicr fod yr holl ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud o'u mannau cychwyn, o leiaf.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio'i 'Siart Cam' ei hun ar gyfer rheoli ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol i fyny i Flwyddyn 6. Mae disgyblion a rhieni wedi croesawu'r strategaeth hon gan eu bod yn ei gweld yn system deg. Mae'n galluogi disgyblion i wneud dewisiadau am eu gweithredoedd a newid eu hymddygiad, pe bai angen. Mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gyson ac yn effeithiol ar y cyfan, yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio'i systemau ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, dros gyfnod, ni fu systemau'r ysgol ar gyfer rheoli, olrhain a herio absenoldeb yn ddigon trylwyr, ac nid yw presenoldeb wedi gwella'n ddigon da.

Yn ddiweddar iawn, mae arweinwyr wedi diwygio'r cyfleoedd i ddisgyblion ar draws y cyfnodau allweddol gael llais o ran y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg. Er enghraifft, yn y flwyddyn academaidd hon, mae'r grŵp disgyblion 'number cruncher' yn rhoi gwybod i ddisgyblion am y data presennol ar bresenoldeb. Mae grwpiau eraill, fel y 'criw cnoi' ('chew crew'), yn helpu codi proffil ffyrdd iach o fyw. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion yn ddigon da i ddatblygu eu hannibyniaeth, er enghraifft i ddatrys problemau, neu gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.

Mae staff yn cynllunio ystod addas o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog ar gyfer disgyblion. Maent yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am y modd roedd pobl yn byw yn y gorffennol yng Nghymru, er enghraifft trwy ymweliadau â Chastell Rhaglan. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am waith pobl enwog o Gymru, fel Roald Dahl, a chymryd rhan mewn eisteddfod ysgol. Cânt gyfleoedd i ddatblygu eu medrau perfformio'n gyhoeddus hefyd trwy berfformio ym mhantomeim blynyddol yr ysgol. Maent yn elwa ar gymryd rhan mewn amrywiaeth o glybiau ar ôl yr ysgol, gan gynnwys côr yr ysgol a'r 'clwb pwyllog' ('calm club').

Mae rhaglen briodol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Yn aml, mae hyn yn cynnwys arbenigedd o'r gymuned, fel swyddogion cyswllt yr heddlu a nyrsys ysgol. Mae disgyblion yn dysgu am aros yn ddiogel ar-lein, ond nid yw pob un o'r disgyblion yn deall sut i ofalu amdanyn nhw eu hunain, er enghraifft ar y rhyngrwyd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ar y cyfan. Fodd bynnag, tynnwyd sylw arweinwyr am bryder ynghylch diogelwch giât y fynedfa.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Anfoddhaol ac angen gwelliant brys**

Mae'r broses i uno a ffurfio'r ysgol gynradd newydd wedi creu llawer o heriau llafurus. Mae'r heriau hyn wedi gwyro arweinwyr oddi wrth ddiben craidd yr ysgol i gyflwyno addysgu a phrofiadau dysgu o ansawdd uchel er budd disgyblion. Mae perthnasoedd rhwng y staff a'r arweinwyr, a rhwng yr arweinwyr eu hunain, yn doredig. Yn rhy aml, mae sianelau cyfathrebu yn aneglur, ac nid yw cyfarfodydd bob amser yn arwain at benderfyniadau na chanlyniadau pwrpasol, ar y cyd. Mae hyn wedi effeithio ar redeg yr ysgol yn esmwyth bob dydd, a lles y staff a'r arweinwyr sy'n gweithio yno.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi ailddosbarthu rolau a chyfrifoldebau'n decach rhwng y staff. Fodd bynnag, mae gormod o staff nad oes ganddynt swydd-ddisgrifiad sy'n adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau presennol yn gywir.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr canol wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall eu rôl. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â chyfleoedd sydd ar y gweill i ddatblygu eu meysydd dysgu a phrofiad a ddyrannwyd yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw eu rôl mewn monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth bresennol wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn cyfrannu'n ddigon da at weithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol nac at benderfyniadau am flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

Mae cynllun datblygu diweddaraf yr ysgol yn cynnwys blaenoriaethau clir ac addas a chamau gweithredu priodol, ac fe'i cefnogir gan raglen monitro a gwerthuso newydd a mwy trylwyr. Y tymor hwn, mae arweinwyr wedi dechrau cylch o weithgareddau monitro gwerth chweil yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu, yn cynnwys bwrw golwg dros lyfrau a theithiau dysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn monitro ac yn gwerthuso ansawdd arfer ystafell ddosbarth athrawon a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn systematig nac yn ddigon rheolaidd. Er enghraifft, nid yw arweinwyr wedi arsylwi ansawdd yr addysgu ar draws y dosbarthiadau yn uniongyrchol er 2017. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn ailymweld â gweithgareddau monitro, fel craffu ar lyfrau, i wirio bod y gwelliannau angenrheidiol wedi cael eu gwneud. Ar draws yr ysgol, nid oes digon o gyfleoedd i athrawon a chynorthwywyr addysgu ddysgu oddi wrth ei gilydd, er enghraifft trwy arsylwi eu cydweithwyr yn gweithio mewn cyfnodau eraill yn yr ysgol.

Gwnaed ychydig o welliannau defnyddiol yn yr ysgol yn ddiweddar. Er enghraifft, mae'r cynllun ffoneg strwythuredig a gyflwynwyd y llynedd yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dysgu eu seiniau yn systematig. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae hanes yr ysgol o wella yn llai llwyddiannus. Er enghraifft, roedd gwella'r Gymraeg a phresenoldeb yn ddau argymhelliad o'r arolygiadau diwethaf o'r ddwy ysgol flaenorol, ond maent yn parhau i fod yn ddiffygion ac yn flaenoriaethau ar y cynllun datblygu ysgol gyfan presennol.

Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn ddigon strategol i nodi effaith camau gwella'r ysgol ar gynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi dyrannu cyllid grant datblygu disgyblion y blynyddoedd blaenorol yn briodol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, ond nid ydynt yn gwybod p'un a yw'r camau gweithredu wedi gwella cynnydd y disgyblion targedig. Nid yw system olrhain bresennol yr ysgol yn ddigon soffistigedig i arweinwyr fod yn sicr fod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud o'u mannau cychwyn unigol. Ar hyn o bryd, nid yw arweinwyr yn dwyn athrawon i gyfrif am gynnydd disgyblion yn eu dosbarth ddigon.

Mae arweinwyr wedi mynychu hyfforddiant lleol y maent wedi'i rannu â staff i ddechrau datblygu dealltwriaeth o'r cwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, mae athrawon wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol gwerth chweil, er enghraifft ymchwilio i ddysgu a datrys problemau yn yr awyr agored.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cyllid yr ysgol a thrafod y gyllideb. Fodd bynnag, mae sefyllfa ariannol yr ysgol wedi amrywio'n sylweddol ers yr uno, ac mae'n rhy gyfnewidiol ar y

cyfan. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi mynychu hyfforddiant gyda'r athrawon i gefnogi datblygiad cwricwlwm newydd yr ysgol. Fodd bynnag, mae eu rôl mewn arwain cyfeiriad strategol yr ysgol a gweithredu fel ffrind beirniadol yn gyfyngedig. Er enghraifft, nid yw llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn ffurfiol yn ddigon rheolaidd i sicrhau eu hunain trwy dystiolaeth uniongyrchol o effaith camau gwella. Ar hyn o bryd, nid yw llywodraethwyr yn cyflawni pob un o'u dyletswyddau statudol, er enghraifft o ran adolygu polisïau statudol yn ddigon rheolaidd, o ran manylion eu hadroddiad blynyddol i rieni.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2020